# Atal a delio â cholli arni awtistig

**Mae colli arni awtistig yn ymateb dwys i sefyllfa sy'n llethu. Mae'n digwydd pan fydd rhywun yn cael ei lethu'n llwyr gan ei sefyllfa ac yn colli rheolaeth dros dro ar ei ymddygiad.**

## 1. Atal colli arni





Wrth ddewis lleoliad:

- Nodwch le tawel neu fan ar wahân i fynd iddo, i ffwrdd o'r prif grŵp.
- Dewiswch amgylchedd nad yw'n cynhyrfu, e.e. dim goleuadau llachar.
- Gofynnwch i'r lleoliad a ganiateir cŵn therapi.
- Gwnewch amser ymlacio yn rhan o'r sesiwn grŵp, e.e. posau neu gemau.

## 2. Lleihau'r achosion a chanfod y sbardunau





Mae pob person awtistig yn wahanol, ond dyma rai sbardunau cyffredin:

- gwahaniaeth synhwyraidd, e.e. i rywun sy'n orsensitif i gyffwrdd a sain, pobl yn eu brwsio heibio iddynt a cherddoriaeth uchel, gall hynny achosi poen a gorlwytho synhwyraidd
- newidiadau yn y drefn arferol, e.e. os oedd y bws yn hwyr yn cyrraedd
- anawsterau cyfathrebu, e.e. anawsterau o ran deall a mynegi eu hemosiynau.

## 3. Rheoli gorbryder



Gall adnoddau a strategaethau helpu i reoli teimladau o orbryder er mwyn atal colli arni rhag digwydd. Gofynnwch ymlaen llaw pa strategaethau sy'n gweithio i bob aelod, e.e.:

- tynnu sylw neu ddargyfeirio
- gwisgo clustffonau gyda rhestr chwarae dawel
- pêl straen yn eu poced.

## 4. Rhagweld colli arni



Bydd llawer o bobl awtistig yn dangos arwyddion o drallod cyn colli arni, a elwir weithiau'n "gam murmur". Efallai y byddant yn dangos arwyddion o orbryder drwy:

- Cerdded ar gyflymder cyson
- gofyn am sicrwydd drwy gwestiynu ailadroddus
- gweithredoedd corfforol, fel siglo neu fynd yn llonydd iawn.

Ar y cam hwn, efallai y bydd cyfle o hyd i atal colli arni. Gofynnwch i'r person a fyddai'n hoffi mynd i'r man tawel a defnyddio ei strategaethau tawelu.

## 5. Beth i’w wneud mewn achos o golli arni



Os oes rhywun yn colli arni, efallai y bydd yn ymateb i chi neu ddim.

- Rhowch amser iddynt – gall gymryd ychydig o amser i ddod dros gorlwyth o wybodaeth neu orlwyth synhwyraidd.
- Defnyddiwch unrhyw strategaethau tawelu hysbys.
- Gofynnwch a hoffen nhw fynd i’r man tawel i gadw eu hunain a’r aelodau eraill yn ddiogel.
- Gofynnwch i’r aelodau eraill symud, peidio â syllu, diffodd cerddoriaeth uchel a diffodd goleuadau llachar – beth bynnag y gallwch feddwl amdano i leihau’r gorlwytho gwybodaeth.